GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sut ydym ni yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws

**Barn y cyhoedd ar gynnal diogelwch y tu allan i'r cartref a data rheolaidd Wythnos 6 (11 tan 17 Mai 2020)**

# Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg dros y ffôn i ymgysylltu â'r cyhoedd i holi aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut y mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd oddi wrth **500 neu fwy o unigolion a ddewiswyd ar hap** yn rhoi'r sail ar gyfer y canlyniadau a gyflwynir ym mhob adroddiad wythnosol.

Mae'r arolwg yn ceisio darparu data sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru ac mae'r data'n cael eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.

Mewn rhai wythnosau, ychwanegir cwestiynau a dileu rhai eraill, yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg honno.

Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys rhai mesurau rheolaidd a welwyd mewn adroddiadau blaenorol ochr yn ochr â chwestiynau newydd sy'n canolbwyntio ar adfer (sut y gellir llacio mesurau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf).

Diolch i bobl Cymru am roi eu hamser gwerthfawr i ni i gefnogi'r gwaith hwn.



# **Cyfwelwyd â 554 o drigolion Cymru** 18 oed a throsodd yn wythnos 6 yr arolwg (11 tan 17 Mai).

Mae'r canfyddiadau yr wythnos hon yn canolbwyntio ar adfer, h.y. barn pobl ar sut y gallai mesurau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws gael eu llacio neu eu cryfhau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

## 73%

o'r farn bod y cyfyngiadau sydd ar waith i reoli'r feirws yn iawn fwy neu lai.

## 59%

weld y cyfyngiadau symud yn parhau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws

## 81%

yn ei chael yn dderbyniol defnyddio ap olrhain y llywodraeth sy'n rhoi rhybuddion i chi os ydych wedi bod yn agos i rywun sydd â'r feirws.

Byddia dderbyniol i

## 44%

pe bai'r lefelau haint yn cynyddu ychydig wrth i'r cyfyngiadau gael eu dileu.

## 11%

yn gwisgo masgiau wyneb yn yr awyr agored y rhan fwyaf o'r amser ac 17% yn eu gwisgo rhywfaint o'r amser.

## 54%

yn meddwl y dylid gwneud i bobl wisgo masgiau wyneb mewn mannau cyhoeddus wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mae

## 20%

o bobl wedi bod yn poeni llawer am golli eu swydd neu fethu dod o hyd i swydd.

## 45%

o'r farn y dylid caniatáu i weithwyr nad ydynt yn hanfodol ddychwelyd i'r gwaith o fewn y tair wythnos nesaf.

I'w gwneud yn ddiogel i ysgolion ailagor, byddai

## 82%

yn cefnogi bod plant yn mynd i'r ysgol ar lai o ddiwrnodau er mwyn cadw nifer y disgyblion yn isel.

I'w gwneud yn ddiogel i bobl ddychwelyd i'r gwaith, byddai

## 98%

yn cefnogi sicrhau bod profion ar gyfer y feirws ar gael yn hawdd i unrhyw un sy'n teimlo'n sâl yn y gwaith.

| Cwestiwn | Ateb | % |
|---|---|---|
| A ydych yn credu bod gennych y coronafeirws neu wedi ei gael? | Ydw | 10% |
| | Ddim yn gwybod | 11% |
| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael y coronafeirws?* | Ddim o gwbl | 14% |
| | Ychydig | 30% |
| | Yn gymedrol | 32% |
| | Llawer | 24% |
| A oes rhywun sy'n agos atoch fel aelod o'r teulu neu ffrind wedi mynd yn ddifrifol wael# gyda'r coronafeirws? | Oes | 10% |

*nid yw'n cynnwys y rhai a atebodd 'ydw' o ran cael coronafeirws

#mynd i'r ysbyty neu wedi marw

# Pa mor dda rydym yn ymdrin â'r coronafeirws?

## A ydych yn credu bod y cyfyngiadau sydd yn eu lle i reoli'r coronafeirws yn...

Rhy ychydig 23%

Yn iawn fwy neu lai 73%

Yn ormodol 4%

## Byddai'n well gennyf weld y cyfyngiadau symud yn parhau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal coronafeirws

Cytuno 59%

Anghytuno 25%

Heb benderfynu 17%

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n credu bod **Llywodraeth Cymru** yn ymateb yn dda i'r problemau a achosir gan y coronafeirws | 23% | 60% | 9% | 6% | 2% |
| Rwy'n credu bod **y GIG** yn ymateb yn dda i'r coronafeirws | 61% | 35% | 3% | 1% | <1% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r **GIG** yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn yn ddifrifol wael gyda'r coronafeirws | 40% | 48% | 8% | 3% | 1% |
| Rwy'n ymddiried yn yr **heddlu** i ddefnyddio eu pwerau newydd i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 28% | 50% | 9% | 10% | 3% |

# Y camau nesaf o ran adfer?

## Pa rai o'r canlynol sy'n dderbyniol i chi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Defnyddio ap olrhain y llywodraeth sy'n rhoi rhybuddion i chi os ydych wedi bod yn agos i rywun sydd â'r coronafeirws | 81% | 11% | 9% |
| Rhoi dirwy i bobl sy'n mynd ati'n fwriadol i anufuddhau i fesurau cadw pellter cymdeithasol | 91% | 5% | 4% |
| Arestio pobl sy'n anufuddhau i fesurau cadw pellter cymdeithasol dro ar ôl tro | 80% | 14% | 6% |
| Lefelau heintiau yn codi ychydig o ganlyniad i ddileu rhai cyfyngiadau | 44% | 47% | 8% |

## Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylid gwneud i bobl barhau i gadw pellter cymdeithasol pan fyddant yn yr awyr agored | 94% | 4% | 2% |
| Dylai pobl sy'n gadael eu cartrefi gael eu profi'n rheolaidd i weld a yw'r feirws ganddynt | 69% | 19% | 12% |

# Y camau nesaf o ran adfer?

## Pryd rydych yn credu y dylai'r newidiadau canlynol ddigwydd?*


| | | O fewn y 3 wythnos nesaf | Mewn mwy na 3 wythnos |
|---|---|---|---|
| Dylai ysgolion ailagor | Pawb | 10% | 90% |
| | Dynion | 11% | 89% |
| | Menywod | 9% | 91% |
| Dylai siopau ailagor | Pawb | 40% | 60% |
| | Dynion | 45% | 55% |
| | Menywod | 34% | 66% |
| Dylai bwytai, tafarndai a bariau ailagor | Pawb | 7% | 93% |
| | Dynion | 10% | 90% |
| | Menywod | 4% | 96% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu dychwelyd i'r gwaith | Pawb | 45% | 55% |
| | Dynion | 54% | 46% |
| | Menywod | 36% | 64% |
| Dylid caniatáu i bobl ddefnyddio mannau cyhoeddus fel parciau a thraethau heb gyfyngiadau | Pawb | 30% | 70% |
| | Dynion | 33% | 67% |
| | Menywod | 27% | 73% |
| Dylai digwyddiadau mawr fel chwaraeon a chyngherddau allu cael eu cynnal | Pawb | 6% | 94% |
| | Dynion | 11% | 89% |
| | Menywod | 1% | 99% |
| Dylid rhoi terfyn ar gadw pellter cymdeithasol | Pawb | 7% | 93% |
| | Dynion | 10% | 90% |
| | Menywod | 4% | 96% |

## Pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys yn y blaenoriaethau i ailagor pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio?

| | |
|---|---|
| Siopau gwella'r cartref | 80% |
| Llyfrgelloedd | 62% |
| Siopau elusen | 44% |
| Trinwyr gwallt a barbwyr | 39% |
| Siopau dillad ac esgidiau | 38% |
| Canolfannau hamdden a champfeydd | 31% |
| Ystafelloedd dangos a gwerthu ceir | 31% |
| Clybiau plant ar gyfer chwaraeon, dawns, cymdeithasu ac ati | 26% |
| Caffis a bwytai | 25% |
| Llety gwyliau (e.e. AirBnB) | 16% |
| Tafarndai a bariau | 13% |

# Masgiau wyneb

## Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?




| | Y rhan fwyaf o'r amser | Rhywfaint o'r amser | Byth | Ddim yn berthnasol* |
|---|---|---|---|---|
| Ar hyn o bryd, pan fyddwch yn mynd allan, a ydych yn gwisgo masg.... | 11% | 17% | 59% | 13% |

| | Cytuno | Anghytuno | Heb benderfynu |
|---|---|---|---|
| Byddai'n well gennyf pe bai pobl yn gwisgo masgiau wyneb mewn mannau cyhoeddus fel siopau ac ar gludiant cyhoeddus | 63% | 13% | 24% |

* ddim yn mynd allan

## Byddai'n well gennyf weld ysgolion yn aros ar gau hyd nes nad oes unrhyw siawns i blant ddal coronafeirws

**Cytuno** 76%

**Anghytuno** 15%

**Heb benderfynu** 9%

## I'w gwneud yn ddiogel i ysgolion ailagor, pa rai o'r mesurau hyn fyddech chi'n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Plant yn gorfod gwisgo masgiau yn yr ysgol | 29% | 57% | 14% |
| Cymryd tymheredd plant pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol | 81% | 14% | 5% |
| Plant yn mynd i'r ysgol ar lai o ddiwrnodau i gadw niferoedd y disgyblion yn isel | 82% | 11% | 8% |
| Dychwelyd i'r ysgol ar gyfer ysgolion cynradd yn unig, o leiaf am yr wythnosau cyntaf | 45% | 41% | 15% |

## Byddai'n well gennyf pe bai gweithleoedd nad ydynt yn hanfodol yn aros ar gau nes y bydd y risg o ledaeniad coronafeirws wedi mynd

- **Cytuno** 66%
- **Anghytuno** 21%
- **Heb benderfynu** 13%

## I'w gwneud yn ddiogel i bobl ddychwelyd i'r gwaith, pa rai o'r mesurau hyn fyddech chi'n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl yn gorfod gwisgo masgiau wyneb wrth weithio dan do mewn mannau a rennir | 72% | 18% | 10% |
| Pobl yn gorfod gwisgo masgiau wyneb wrth weithio yr awyr agored mewn mannau a rennir | 47% | 44% | 9% |
| Ei gwneud yn ofynnol cael mesurau cadw pellter cymdeithasol ym mhob gweithle | 92% | 4% | 4% |
| Ei gwneud yn ofynnol cymryd tymheredd pobl yn y gwaith | 81% | 13% | 6% |
| Sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn hawdd | 99% | <1% | <1% |
| Sicrhau bod profion ar gyfer y feirws ar gael yn hawdd i unrhyw un sy'n teimlo'n sâl yn y gwaith | 98% | 1% | 1% |
| Newid oriau gwaith pobl i leihau nifer y bobl sy'n gweithio ar unrhyw un adeg (e.e. gweithio mewn sifftiau) | 91% | 5% | 4% |

# Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i ddiogelu pobl?

## Cludiant cyhoeddus


| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylid gwneud i bobl ar gludiant cyhoeddus wisgo masgiau wyneb | 84% | 12% | 4% |
| Dylai darparwyr cludiant cyhoeddus sicrhau bod bylchau diogel rhwng teithwyr | 94% | 3% | 3% |
| Ni ddylai pobl rannu ceir â phobl nad ydynt yn byw gyda nhw | 69% | 21% | 10% |

## Agor siopau

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylai pobl sy'n gweithio mewn siopau wisgo masgiau wyneb neu feisorau | 84% | 11% | 5% |
| Dylai fod yn ofynnol i siopau roi mesurau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle | 98% | 1% | 1% |

# Sut ydym yn ymddwyn?

## Yn y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod rydych chi wedi gadael eich cartref?




A ydych ar hyn o bryd yn hunanynysu oherwydd bod gennych chi neu rywun arall yn eich cartref symptomau neu oherwydd eich bod mewn grŵp risg uchel?

Ydw 33%

# Beth rydym yn poeni amdano?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, faint y mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?

| | Ddim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Colli un o'ch anwyliaid i'r feirws | 12% | 26% | 62% |
| Llesiant eich plant*~ | 21% | 27% | 52% |
| Addysg eich plant*~ | 25% | 33% | 41% |
| Cyflwr iechyd nad yw'n gysylltiedig â'r coronafeirws | 62% | 24% | 14% |
| Colli eich swydd neu fethu dod o hyd i swydd#~ | 62% | 18% | 20% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw eich swydd yn ddiogel#~ | 53% | 26% | 20% |
| Eich arian | 62% | 25% | 14% |

## O ganlyniad i'r coronafeirws, a ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref wedi...

| | Ie |
|---|---|
| Wedi cael eu hatal o'r gwaith ar gyflog is neu ddim cyflog (e.e. ar ffyrlo) | 28% |
| Wedi cael gostyngiad sylweddol yn eu hincwm drwy gael llai o waith neu lai o oriau | 15% |
| Wedi profi unrhyw effaith ariannol arall ar y cartref oherwydd coronafeirws | 9% |

*yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant yn y cartref;
~Data heb eu pwysoli;
#Nid yw'n cynnwys y rhai sy'n ateb 'amherthnasol'

# Sut ydym yn teimlo?

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n iach** | **Pa mor iach ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Afiach iawn; 10 = Iach iawn | 5% | 28% | 67% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n hapus** | **Pa mor hapus ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn gwbl hapus | 4% | 29% | 67% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n bryderus** | **Pa mor bryderus ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl<br>10 = Yn gwbl bryderus | 50% | 31% | 19% |

| | | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer corff** | **Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff** (digon i'ch gwneud allan o wynt)? | 22% | 30% | 48% |

# Ymholiadau

**Data a Dadansoddeg**
yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddi**
Dr Freya Glendinning

**E-bost**
ymholiadau.cyffredinol
@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Gwefan**
publichealthwales.org

**Datblygu'r Arolwg**
yr Athro Mark A. Bellis

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**
Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

## Sut wyt ti?

I gael gwybodaeth gyffredinol am sut i ofalu amdanoch eich hun, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws ewch i:

**phw.nhs.wales/howareyoudoing**

